**TGAU**

3010N10-1

W20-3010N10-1

**DYDD GWENER, 10 IONAWR 2020 – BORE**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG
## UNED 1: Barddoniaeth
## HAEN SYLFAENOL

1 awr 15 munud

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
**Un cwestiwn gorfodol** ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.
Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.
Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.
Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**1.** Darllenwch y **ddwy** gerdd ganlynol yn ofalus.
**Yn y cerddi, mae'r beirdd yn mynd â ni i fyd y dychymyg.**

**Cymharwch** y **ddwy** gerdd gan ddangos sut maen nhw'n **debyg** a/neu'n **wahanol**.

Dylech wneud hyn drwy:

- ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun, er enghraifft:
    - *Pa fath o ddarlun o ddychymyg mae'r ddau fardd yn ei roi i ni?*
    - *Ydy'r ddau fardd yn sôn am ddychymyg mewn ffyrdd gwahanol?*
    - *Meddyliwch beth yw'r neges yn y ddwy gerdd.*
- edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am **o leiaf bedair nodwedd arddull/mesur** a dweud pam maen nhw'n effeithiol
- nodi pa **un** o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn.

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. **[40]**

**Y Sbectol Hud**

Pan fydd yr haul yn cwato'r sêr i gyd,
a'r nos ar goll tu ôl i ddrws y dydd,
pan fydd y lleuad wen ym mhen draw'r byd,
a'r machlud fel y wawr ar orwel cudd;
neu pan fydd niwl yn gwisgo'r bryniau draw,
a phlu yr eira'n oeri brigau'r llwyn,
pan fydd y blodau trist yn crio'r glaw –
rho bâr o sbecs dychymyg am dy drwyn.

Ti'n gweld, mae gweld yn anodd ambell waith
a ninnau'n ddall i ryfeddodau'r byd,
am hyn, fy ffrind, cyn dechrau ar dy daith,
ym mhoced ôl dy jîns rho'r sbectol hud.
A gwisga hi, a mentra godi'r llen
i weld holl liwiau'r enfys sy'n dy ben.

*Mererid Hopwood*

**Cwestiynau Bach Mawr**

*(Sisial Maela yn holi ei thad ar draeth)*

Pam fod y tywod mor felyn?
Ai am fod yna *friwsion
o'r heulwen wedi disgyn?

Pam fod y môr ar brydiau yn las
ac yna weithiau yn wyrdd?
A pham ei fod mor hallt ei flas?

Pam fod y tonnau'n sisial?
Ai fy enw i gallaf eu clywed
o dro i dro yno'n *mwmial?

Pam fod y môr yn *ffoi o hyd?
Oes yna rywun yn ceisio
ei ddwyn yr ochr draw i'r byd?

Dad, pam fod gwyliau'n diweddu?
"Fel'na, Sisial, cei di edrych mlaen
at fwy o wyliau braf fel heddi."

*Aneirin Karadog*

| |
|---|
| **friwsion/briwsion – darnau bach o fara* <br> **mwmial – sibrwd* <br> **ffoi – dianc* |

**DIWEDD Y PAPUR**